**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**3 Mawrth 2023**

09:00 – 14:00

Lleoliad: Llys Cadwyn, Pontypridd, ac ar-lein

---

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd) Peter Strachan; Heather Clash; Jan Chaudhry; Alexia Course a Marie Daly.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datganiadau Diddordeb**
Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 3 Chwefror 2023 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf.

**2. Sylw i ddiogelwch**
Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y digwyddiadau thermol ar drenau Class 175 yn ddiweddar a'r tarfu a fu ar y rhwydwaith o ganlyniad i hynny. Un peth posibl a allai fod wedi achosi'r digwyddiadau oedd y ffaith bod detritws a malurion wedi cronni o amgylch pen uchaf yr injan. Casglwyd gwybodaeth gan arbenigwyr o ar draws TrC a CAF a dim ond peiriannau y cynhaliwyd archwiliadau uwch arnynt fydd mewn gwasanaeth. Mae'r digwyddiadau wedi achosi newidiadau i amserlenni ar draws y rhwydwaith. Anfonwyd llythyr ffurfiol at CAF ynghylch cydymffurfio â chyfarwyddiadau cyfredol mewn perthynas â chynnal a chadw cerbydau. Mae Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn fodlon ar y camau a roddwyd ar waith ar gyfer y tymor byr, ac mae'n bosibl y bydd HMRI yn cyflwyno hysbysiad gorfodi. Diolchodd y Bwrdd i Jan Chaudhry van der Velde a'r tîm am eu harweinyddiaeth ac am wneud y penderfyniadau ynghylch diogelwch yn ystod wythnos anodd.

[redacted]

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am adnewyddu CIS ar draws y rhwydwaith.

**4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau (Cyfnod Rheilffyrdd: 11 (22/23) 8 Ionawr – 4 Chwefror 2023)**
Mae effeithiau'r rhaglen drawsnewid yn cael eu teimlo yn y ddarpariaeth gwasanaeth trên drwyddi draw, yng nghyswllt Llinellau Craidd y Cymoedd a rhwydwaith Cymru a'r Gororau fel ei gilydd. Ond, mae timau wedi gwneud yn dda i liniaru'r effeithiau ar deithwyr a chadw lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid yn uwch na'r targed ar yr un pryd. Mae'r newidiadau ar lawr gwlad yn dod yn fwy amlwg i staff a theithwyr gan roi cipolwg ar y rhwydwaith gwell ar gyfer y dyfodol sy'n helpu i werthu'r buddion yn y tymor hir yn erbyn unrhyw drafferthion yn y tymor byr.

Roedd y perfformiad at ei gilydd yn gymysg ond mae ystyriaethau o ran dibynadwyedd MKIV a Cl175 yn parhau, gan gynnwys cyn y digwyddiadau thermol diweddar. Ond, mae'r trenau 150 a'r hen fflydoedd eraill yn perfformio'n dda. Roedd boddhad cwsmeriaid yn uwch na'r targed ar gyfer y cyfnod.

Lansiwyd Prosiect Mercury yn unol â'r amserlen, ac roedd symud o'r hen systemau meddalwedd i'r rhai newydd wedi mynd rhagddo yn ddidrafferth ar y cyfan.

Trafododd y Bwrdd effaith bosibl y gweithredu diwydiannol arfaethedig ar wasanaethau. Cytunodd y Bwrdd fod angen trafod â Llywodraeth Cymru ynghylch gwerth gofyn i Lywodraeth y DU am eglurder ynglŷn â pheidio â nodi y bydd rhai rhannau pwysig o rwydwaith TrC, fel y Gororau neu Ogledd Cymru, yn cael eu cau gan nad ydynt ar y 'brif-linell' [**Cam Gweithredu Rob Holmes**].

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â dwyn ceblau; dau achos o Basio Signal yn Beryglus yn ystod y cyfnod; DPA canslo; a'r drefn ansawdd gwasanaeth.

Gadawodd Peter Strachan y cyfarfod.

**5a. Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad. Gofynnodd y Bwrdd bod fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Rheoli Argyfwng yn cael ei rhannu a bod y Tîm Arwain Gweithredol yn cael ei friffio yn y cyfarfod nesaf [**Cam Gweithredu Leyton Powell**].

**5b. Adroddiad risg rheilffyrdd**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod y Grŵp Llywio Cyflawni Rheilffyrdd wedi cynnal adolygiad manwl o'r gofrestr risg yn ddiweddar. Cytunwyd bod angen adolygu'r risg o ffactorau allanol yn dylanwadu ar berfformiad o ran refeniw teithwyr [**Cam Gweithredu Alexia Course**].

**6. Network Rail CP7**
Ymunodd David Tunley (Network Rail) ac Anthony McKenna (TrC) â'r cyfarfod. Cafodd y Bwrdd wybodaeth am raglen gynllunio Cyfnod Rheoli 7 Network Rail (CP7), y dull o bennu blaenoriaethau cyllido drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, canlyniadau'r broses ymgysylltu, y weledigaeth ar gyfer 2028, a throsolwg ariannol. Amlinellodd y Bwrdd ei bryderon penodol ynghylch cyllid ar gyfer adnewyddu traciau a'r effaith ar ddibynadwyedd yn ystod CP7. Gofynnodd y Bwrdd am ddadansoddiad o'r lefelau dibynadwyedd a ragwelir ar gyfer Cymru a Lloegr [**Cam Gweithredu Anthony McKenna**].

Amlinellodd y Bwrdd hefyd ei bryderon ynghylch methiannau sy'n effeithio ar y gwasanaeth , seilwaith y Gororau, Rheilffordd Gogledd Cymru, gwytnwch o safbwynt y tywydd ac ETCS ar Reilffordd y Cambrian. Er y byddai Network Rail a TrC yn cymryd pob cam ar lawr gwlad i liniaru risgiau, mae cynnydd cyffredinol yn y risgiau ar draws y rhwydwaith a allai effeithio ar ddibynadwyedd. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod gostyngiad o 5% yng ngwariant Network Rail ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau o'i gymharu â Chyfnod Rheoli 6, gyda gostyngiadau yn y cwmpas o ran adnewyddu asedau, gohirio cynlluniau a'r newid o ran ymyriadau i ailwampio yn hytrach nag adnewyddu'n llawn.

Gadawodd David Tunley ac Anthony McKenna y cyfarfod.

**7. Diweddariad masnachol**

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**8. Adolygiad cyllid**

[redacted]

Hysbyswyd y Bwrdd bod llog wedi'i gynhyrchu yn ystod y flwyddyn ariannol ac, fel y nodir yn y Cytundeb Rheoli, mae'r llywodraeth ganolog yn ei hawlio yn ôl ar hyn o bryd. Cytunwyd i drafod y mater â Llywodraeth Cymru [**Cam Gweithredu James Price**].

[redacted]

Nododd y Bwrdd yr adolygiad ariannol. Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.

**10. Cyflog**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran y trafodaethau ynghylch cyflogau.

[redacted]

**11. Newidiadau i Amserlen 2023**

Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod.

Bu'r Bwrdd yn trafod opsiynau ar gyfer newid yr amserlen yn 2023 oherwydd problemau'n ymwneud ag argaeledd cerbydau, cadw cerbydau a'u cynnal, gan gynnwys y sefyllfa o ran cerbydau CAF a'r oedi o ran mwy o hyfforddiant i yrwyr a goruchwylwyr. Ar ôl trafod, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu argymhellion y papur, ond pryd bynnag y bo modd, dylid dod ag achosion unigol o uwchraddio'r amserlen i rym cyn gynted ag y bydd yr holl ffactorau parodrwydd yn cael eu cyflawni, cyn dyddiad newid amserlen teithwyr lle bo hynny'n bosibl.

Gadawodd Colin Lea y cyfarfod.

**12. Teithio am ddim**

Cymeradwyodd y Bwrdd set o argymhellion mewn papur ar gyfer delio â cheisiadau am deithio am ddim ar drenau gan unigolion a sefydliadau sy'n dymuno teithio ar y trên lle mae TrC yn talu'r gost, o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

**13. Targedau perfformiad**

Nododd y Bwrdd bapur yn nodi cynigion ar gyfer targedau perfformiad realistig ond ymestynnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 24.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.